# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Pontllanfraith

**Bryn Pavillion, Bryn Estate**
**Bryn Road**
**Pontllanfraith**
**Blackwood**
**NP12 2DA**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Pontllanfraith

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Pontllanfraith |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd plant – Gofal dydd sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Stacey Cooper |
| Person â gofal | Georgina Clifford |
| Nifer y lleoedd | 13 |
| Amrediad oedran y plant | 2-3 |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 2 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 9.30-12.00 Llun i Gwener, prynhawn dydd Mercher |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg, ac yn bwriadu bod yn wasanaeth dwyieithog neu'n dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 20/02/2019 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 23/02/2016 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 22/11/2022 |

## Diffyg cydymffurfio

Hysbyswyd y darparwr nad yw’r lleoliad yn cydymffurfio gyda’r Rheoliadau, ni chyflwynwyd hysbysiad, ond mae’r rhain yn cael eu hadnabod fel meysydd i’w gwella, a dylai’r PC/UC roddi sylw iddynt.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod ymarferwyr yn hyrwyddo medrau Cymraeg y plant mewn modd systematig a chyson yn unol â’r datganiad o ddiben.

A2 Adolygu a theilwra’r asesiadau risg.

A3 Sicrhau bod hyfforddiant staff yn cael ei ddiweddaru’n brydlon.

A4 Diffinio rolau a chyfrifoldebau'r pwyllgor rheoli a’r tîm arweinyddiaeth yn unol â pholisïau a chanllawiau'r lleoliad.

A5 Mynd i afael â’r materion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolwg.

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae gan y plant lais cryf ac maent yn lleisio eu barn yn gyson. Er enghraifft, maent yn mynegi eu teimladau drwy symud eu lluniau ar y wal deimladau. Mae ymarferwyr yn cydnabod sut mae’r plant yn teimlo ac yn ymateb yn briodol. O ganlyniad, mae’r plant yn gwybod caiff eu teimladau eu hystyried.

Mae rhan fwyaf o blant yn teimlo'n gwbl gartrefol yn y lleoliad ac yn mwynhau mynychu. Maent yn ymdopi’n dda iawn pan maent yn gwahanu oddi wrth eu rhieni a’u gofalwyr wrth y glwyd. Erbyn iddynt gyrraedd y brif ystafell, mae mwyafrif y plant yn hapus ac yn hyderus. Mae bron bob plentyn yn ymgartrefu’n gyflym iawn ac yn teimlo’n ddiogel yn eu hamgylchedd. Maent wedi datblygu perthynas agos iawn gyda’r ymarferwyr ac maent yn barod i sgwrsio’n anffurfiol ag ymwelwyr. Er enghraifft, maent yn awyddus i ddangos eu siwmperi newydd a dangos y llun sydd arno. Mae bron bob un yn gyfarwydd â’r trefniadau dyddiol ac yn cydymffurfio’n aeddfed gyda threfniadau’r lleoliad. Mae hyn yn creu sicrwydd i'r plant wrth iddynt ymdopi â phrofiadau newydd.

Mae llawer o blant yn datblygu sgiliau cymdeithasol da. Yn y bore, maent yn croesawu eu ffrindiau’n frwdfrydig, yn cyfarch ei gilydd ac yn mynd yn syth i gyd-chwarae’n hapus. Mae rhan fwyaf o blant yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda, gan ddangos parch tuag at ymarferwyr a'u cyfoedion. Er enghraifft, wrth y bwrdd bwyd maent yn aros eu tro yn amyneddgar gan sgwrsio'n hapus gyda’i gilydd.

Mae rhan fwyaf o blant yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu. Er enghraifft, maent yn cael llawer o hwyl wrth chwarae cuddio gyda’r ymarferwyr. Maent wrth eu bodd yn chwarae triciau gyda’u ffrindiau. Mae’r llawer o blant yn ymateb yn llawn cyffro wrth chwarae yn yr ardal allanol. Maent yn defnyddio’r offer ac yn datblygu eu sgiliau corfforol wrth iddynt gydbwyso a theithio ar hyd llwybr y pontydd pren. Ar ôl cyrraedd y diwedd maent yn dangos cryn falchder yn eu cyflawniad.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau annibynnol da. Er enghraifft, maent yn mynd at y bwrdd byrbryd a dewis eu bwyd cyn dychwelyd i eistedd wrth y bwrdd i fwyta. Maent yn gwneud dewisiadau yn ôl eu diddordebau. Yn ystod y dydd maent yn penderfynu sut i dreulio eu hamser. Mae rhai yn mynd i’r ardal allanol tra bod eraill yn dewis o’r amrywiol weithgareddau tu fewn. Maent yn dyfalbarhau’n briodol gyda’r gweithgareddau ac yn ymgolli yn eu chwarae.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad:**

Mae ymarferwyr yn rhoi blaenoriaeth i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn cadw at weithdrefnau dyddiol y lleoliad yn briodol. Gwna'r ymarferwyr ymdrech i sicrhau gweithdrefnau hylendid da. Er enghraifft, maent yn golchi dwylo, gwisgo ffedog ac yn diheintio arwynebau yn ofalus cyn paratoi bwyd. Mae ymarferwyr yn paratoi byrbrydau pwrpasol sy'n cynnig amrywiaeth da o fwyd iach i'r plant ac mae hyn yn atgyfnerthu ymwybyddiaeth y plant o arferion bwyta'n iach. Nid ydynt wedi cael achos i weinyddu meddyginiaeth ond mae ganddynt bolisi addas a ffurflenni cywir i gofnodi os oes angen. Mae ymarferwr yn dilyn gweithdrefnau priodol ar gyfer cofnodi damweiniau ac anafiadau. Maent yn cynnal cyswllt buddiol gyda rhieni a gofalwyr ynglŷn ag anafiadau sy'n bodoli eisoes. Mae'r holl ymarferwyr yn hyderus ar sut i weithredu pe bai ganddynt unrhyw bryder am ddiogelwch plentyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn datblygu perthynas gynnes â'r plant ac yn eu trin â gofal a pharch. Maent yn canmol y plant yn aml, sy'n effeithio'n gadarnhaol ar ddatblygu eu hunan hyder a'u dealltwriaeth o bwysigrwydd parchu ei gilydd. Mae pob ymarferydd yn defnyddio iaith gadarnhaol gyda'r plant sy'n hyrwyddo ymddygiad da ac yn cefnogi'r plant yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn hwyluso datblygiad cymdeithasol y plant law yn llaw gyda'u sgiliau personol. Er enghraifft, yn ystod amser byrbryd caiff y plant gyfle i dorri eu bwyd eu hunain. Mae'r staff yn modelu hyn yn effeithiol ac yn cefnogi drwy annog y plant i ddysgu trwy arsylwi ar sgiliau'r plant eraill.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn parchu eu dymuniadau a'u hoffterau. Er enghraifft, maent yn ymateb i geisiadau plant i dynnu llun gyda chamera ac i fynd at y fflach-lampau. Mae ymarferwyr yn datblygu cyfleoedd effeithiol i ymateb i ddiddordebau'r plant, ac yn eu holi'n bwrpasol wrth chwarae. Maent yn sensitif i blant sy'n dewis peidio ag ymgymryd â thasgau penodol ac yn gadael iddynt ddewis eu trywydd eu hunain. Er enghraifft, does dim rheidrwydd i'r plant ymuno mewn sesiwn canu ar y cyd.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo dealltwriaeth y plant o bwysigrwydd trin pobl o bob cefndir diwylliannol â pharch a goddefgarwch. Maent yn datblygu eu dealltwriaeth o ddathliadau fel y Pasg ac o bwysigrwydd gwaith elusennol. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod gan y plant ddealltwriaeth fuddiol o gynaliadwyedd ac ailgylchu trwy ddarparu profiadau bywyd go iawn iddynt. Maent yn darparu cyfleusterau ailgylchu ac mae'r plant yn defnyddio'r rhain yn frwdfrydig.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu cwricwlwm priodol sy'n cynnig profiadau gwerthfawr ac yn ymateb i anghenion plant yn llwyddiannus. Maent wedi dechrau cynllunio'n unol ag egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru, gan ddarparu ystod diddorol o brofiadau gwerthfawr o fewn yr adeilad ac yn yr ardaloedd tu allan. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd i'r plant ddefnyddio arian a llysiau go iawn yn y siop awyr agored.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd da i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Maent yn cymell y plant yn effeithiol i greu marciau gydag amrywiaeth o gyfryngau a'u hannog i chwilio, didoli a rhifo trychfilod yn y twba tywod. Mae'r ymarferwyr yn ymestyn dealltwriaeth y plant trwy eu holi'n fedrus wrth chwarae, a thrwy ganu caneuon bywiog. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio'r Gymraeg yn ddigon cyson i drochi ac atgyfnerthu patrymau iaith gyda'r plant. Yn gyffredinol, mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau cynnar TGCh y plant yn datblygu'n briodol yn unol â'u hoed.

Mae ymarferwyr yn datblygu cyfleoedd i fagu annibyniaeth plant yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn disgwyl iddynt weini bwyd a diod eu hunain yn ystod amser byrbryd a thacluso wedyn. Maent yn annog plant yn fwriadus i gymryd eu tro er mwyn deall pwysigrwydd rhannu a chwrteisi. Mae ymarferwyr yn deall anghenion y plant yn dda ac maent yn gweithredu'n frwdfrydig a chydwybodol wrth annog eu dysgu a hyrwyddo eu lles. Mae ymarferwyr yn dethol pryd i ymyrryd yn synhwyrol yn y chwarae a phryd i adael i'r plant ddarganfod drostynt eu hunain. Er enghraifft, maent yn herio'r plant i dorri, gwasgu ac ymestyn toes i greu 'trychfilod' ac yn arsylwi wrth i'r plant ddatblygu eu syniadau i greu bwyd gyda'r toes.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn eu hannog i yrru beiciau ar hyd y palmant a'r glaswellt a throsglwyddo gwrthrychau o un lle i'r llall gyda berfa. Maent yn darparu gweithgareddau creadigol effeithiol, fel torri a gludo gwahanol ddefnyddiau, arbrofi gyda phaent, a pharatoi prydau dychmygus yn y gegin fwd.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn effeithiol. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru'n dda trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a hanes Santes Dwynwen. Yn ogystal, maent yn dathlu amrywiaeth trwy astudio gwyliau arbennig, fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Mae'r gweithdrefnau asesu yn effeithiol ac mae ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth yn bwrpasol i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn nysgu'r plant. Mae adroddiadau i rieni yn amlinellu'r hyn y mae'r plant wedi'i gyflawni'n dda.

Mae ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth gyda rhieni a gofalwyr yn rheolaidd gan grynhoi cynnydd a diddordebau'r plant.

**Yr amgylchedd:**

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd diogel a glân ar gyfer y plant. Mae mynediad i'r adeilad trwy ddrws diogel ac mae'r glwyd allanol ar glo yn ystod oriau gweithredu. Gofynnir i ymwelwyr fewngofnodi yn brydlon a chedwir cofnodion manwl. Mae cofnodion cynnal a chadw'r adeilad yn gyfredol ac mae ymarferwyr yn sicrhau bod ymarferion tân yn digwydd yn rheolaidd. Mae ymarferwyr yn sicrhau eu bod yn gwirio a glanhau adnoddau'n rheolaidd. At ei gilydd, mae arweinwyr yn cynnal asesiadau risg manwl. Maent yn llunio asesiadau risg trylwyr ar gyfer gweithgareddau'r plant. Er enghraifft, mae asesiad risg cynhwysfawr o'r weithgaredd pren sydd yn defnyddio hoelion a morthwyl. Mae arweinwyr wedi cwblhau asesiadau risg generig i'r adeilad ac ar gyfer tân. Mae'r rhain yn bwydo'r rhestrau gwirio dyddiol sy'n cael eu cwblhau gan ymarferwyr. Er hyn, nid yw arweinwyr bob tro'n mynd ati'n rhagweithiol i adnabod risgiau newydd yn ddigon amserol er mwyn lleihau risgiau posibl i blant.

Mae ansawdd yr amgylchedd yn briodol ac yn cynnig cyfleoedd i blant chwarae a dysgu tu mewn a thu allan i'r adeilad. Mae arweinwyr yn darparu cyfleusterau toiled addas o fewn yr adeilad sy'n sicrhau cyfleoedd i barchu preifatrwydd plant wrth ymolchi. At ei gilydd, mae'r ymarferwyr yn cynllunio amserlen benodol i'r plant gael mynediad at yr ardal tu allan er mwyn sicrhau goruchwyliaeth briodol. Yn ystod y cyfnodau yma mae'r plant yn dewis os ydynt eisiau treulio amser tu fewn neu tu allan. Mae hyn yn galluogi'r plant i wneud penderfyniadau syml am yr hyn maent yn dymuno'i wneud. Mae ymarferwyr yn dathlu creadigrwydd y plant drwy arddangos eu gwaith. Er enghraifft, mae ffotograffau'r plant yn cael lle blaenllaw ac mae'r plant wrth eu bodd yn cyfeirio atynt ac adnabod eu ffrindiau. Mae hyn yn cyfrannu at yr ymdeimlad o berthyn ymysg y plant.

Mae ymarferwyr yn cadw adnoddau ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol ac i ddilyn eu diddordebau unigol. O ganlyniad, mae'r plant yn dechrau dod yn gyfarwydd ag estyn a dychwelyd offer i'r mannau priodol. Mae'r ardal tu allan yn galluogi plant i ddatblygu'n gorfforol, yn greadigol ac yn ymchwiliol. Er enghraifft, mae'r plant yn tyfu tatws ac yn eu symud i'w gwerthu yn y siop. Mae'r dodrefn, cyfarpar, teganau ac adnoddau yn briodol ac o safon uchel, ac maent yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Yn ogystal, anogir datblygiad personol a chymdeithasol y plant yn dda drwy gael mynediad at deganau a llyfrau amlddiwylliannol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae gan y person â gofal weledigaeth glir ac mae'n llywio cyfeiriad pwrpasol i waith y lleoliad. Mae hi'n canolbwyntio ac yn ymroi at ddatblygu rôl yr ymarferwyr. Mae'r holl ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol er mwyn creu awyrgylch ysgogol a chefnogol ar gyfer y plant.

Mae gan y arweinwyr weithdrefnau effeithiol ar waith i nodi cryfderau'r lleoliad ac unrhyw feysydd i'w gwella. Maent wedi llunio blaenoriaethau pwrpasol sy'n arwain at dargedau sefydlog a realistig. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn llwyddiannus wrth roi'r targedau hyn ar waith. Enghraifft diweddar o hyn yw gwella mynediad rhieni a gwarchodwyr i brofiadau'r plant trwy eu gwahodd i ymweld â'r lleoliad a chymryd rhan mewn gweithgareddau, fel plannu llysiau a cherfio pwmpen.

At ei gilydd, mae arweinwyr yn ymdrechu'n gydwybodol i gydymffurfio gyda'r rheoliadau. Mae ganddynt brosesau recriwtio diogel a threfniadau priodol yn eu lle ar gyfer goruchwylio ac arfarnu gwaith ymarferwyr. Maent yn sicrhau bod gwiriadau y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu diweddaru ar gyfer yr ymarferwyr. Fodd bynnag, nid oedd gwiriad yr unigolyn cyfrifol yn gyfredol yn ystod yr arolwg. Mae gan y lleoliad bolisïau a chanllawiau cynhwysfawr, ac mae arweinwyr ac ymarferwyr yn eu gweithredu'n effeithiol. Fodd bynnag, nid yw rolau a chyfrifoldebau'r pwyllgor rheoli a'r tîm arweinyddiaeth bob amser wedi eu diffinio yn ddigon clir. Mae'r datganiad o ddiben yn fanwl yn darparu gwybodaeth angenrheidiol i rieni ac yn nodi mai Cymraeg yw cyfrwng y lleoliad. Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad yn gweithredu yn gyson â hyn.

Yn ogystal, nid yw'r unigolyn cyfrifol bob amser yn hysbysu AGC am ddigwyddiadau penodol yn unol â'r rheoliadau.

Mae gan ymarferwyr brofiad a chymwysterau priodol ac maent yn deall eu cyfrifoldebau’n dda. Mae'r person â gofal yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn gweithio’n effeithiol fel tîm ac yn cydweithio wrth gynllunio ac asesu cynnydd y plant. Mae ymarferwyr yn awyddus i wella’u harferion er lles y plant, ac maent yn gwrando’n synhwyrol ar awgrymiadau swyddogion yr asiantaethau cefnogi.

Mae’r lleoliad yn defnyddio’r gyllideb a’r grantiau yn effeithiol ac yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau yn ddoeth. Er enghraifft, maent yn galluogi’r ymarferwyr i fynychu hyfforddiant bwriadus, sy'n gwella’u harferion addysgu a’u cynllunio, a maent wedi archebu adnoddau i gyfoethogi’r ardal allanol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn sicrhau bod hyfforddiant gorfodol yn cael ei ddiweddaru’n amserol.

Mae gan y lleoliad bartneriaethau buddiol. Maent yn cydweithio’n dda gyda rhieni, a bron bob un rhiant yn hapus â'r ddarpariaeth a'r gofal. Maent yn gwerthfawrogi’r adborth cyson ar gynnydd a lles eu plentyn. Mae gan y lleoliad brosesau priodol ar gyfer pontio ar ddiwedd y flwyddyn. Mae rhain yn cynnwys cyfleoedd i blant gyfarfod ag athrawon meithrin yr ysgol cyn iddynt drosglwyddo.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/01/2023

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 31 | Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol bob amser yn rhoi gwybod i AGC am newidiadau i'r staff, atgyfeiriadau diogelu na newidiadau i'r datganiad o ddiben mewn modd amserol. Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau ei fod bob amser yn rhoi gwybod i AGC am ddigwyddiadau mewn modd amserol. | Newydd |
| 6 | Nid oes gan yr Unigolyn Cyfrifol wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau y caiff gwiriadau eu cwblhau mewn modd amserol. | Newydd |
| 15 | Nid yw'r datganiad o ddiben yn rhoi gwybodaeth gywir am y ffordd y mae'r lleoliad yn gweithredu ar hyn o bryd. Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau y caiff y datganiad o ddiben ei ddiwygio mewn modd amserol. | Newydd |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 30 Ionawr 2023